# Adroddiad Archwilio Blynyddol 2022 – Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

Blwyddyn archwilio: 2021-22

Dyddiad cyhoeddi: Mai 2023

Cyfeirnod y ddogfen: 3314A2023

Mae'r adroddiad hwn wedi ei baratoi at ddefnydd mewnol Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol ystod eang o swyddogaethau archwilio a chysylltiedig. Mae'r rhain yn cynnwys archwilio cyfrifon cyrff y GIG, ac adrodd wrth y Senedd ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y sefydliadau hynny wrth ddefnyddio'u hadnoddau. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud ei waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw'r enw ymbarél ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân â'u swyddogaethau cyfreithiol eu hunain fel y disgrifir uchod. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol ac nid oes ganddo unrhyw swyddogaethau ei hun.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2022

Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb mewn cysylltiad ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog, na chyflogai arall yn eu rhinwedd unigol, nac unrhyw drydydd parti mewn cysylltiad â'r adroddiad hwn.

Os derbynnir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn cysylltiad â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys


Adroddiad cryno

Ynglŷn â'r adroddiad hwn 4

Negeseuon allweddol 5

Adroddiad manwl

Archwilio’r cyfrifon 7

Trefniadau ar gyfer sicrhau defnyddio adnoddau yn effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus 10

Atodiadau

Atodiad 1 – adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf 20

Atodiad 2 – ffi archwilio 23

Atodiad 3 – risgiau archwilio ariannol 24

# Adroddiad manwl

## Ynglŷn â'r adroddiad hwn

1 Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi canfyddiadau fy ngwaith archwilio yn 2022 ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg (y Bwrdd Iechyd) a gynhaliwyd i gyflawni fy nghyfrifoldebau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Mae'r Ddeddf honno'n ei gwneud yn ofynnol i mi:

- archwilio ac ardystio'r cyfrifon a gyflwynwyd i mi gan y Bwrdd Iechyd a'u gosod gerbron y Senedd;
- bodloni fy hun bod gwariant ac incwm wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd ac yn unol ag awdurdodau; a
- bodloni fy hun bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud trefniadau priodol ar gyfer sicrhau defnyddio adnoddau yn ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol.

2 Rwy'n adrodd fy nghanfyddiadau cyffredinol o dan y penawdau canlynol:

- Archwilio cyfrifon
- Trefniadau ar gyfer sicrhau defnyddio adnoddau yn effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus

3 Cynhaliwyd y gwaith archwilio eleni ar adeg pan oedd cyrff cyhoeddus yn parhau i ymateb i'r heriau digynsail a gyflwynwyd gan bandemig COVID-19. Roedd cyrff iechyd nid yn unig yn mynd i'r afael â'r heriau uniongyrchol a gyflwynwyd gan yr argyfwng iechyd cyhoeddus ond roeddent hefyd yn ceisio adfer a thrawsnewid gwasanaethau i ymateb i'r niferoedd sylweddol o bobl sy'n aros am driniaeth a gwella iechyd y boblogaeth. Felly, cynlluniwyd fy rhaglen waith i sicrhau pobl Cymru yn y ffordd orau bod arian cyhoeddus yn cael ei reoli'n dda. Rwyf wedi ystyried effaith yr argyfwng presennol ar gadernid a ffurf gwasanaethau cyhoeddus yn y dyfodol.

4 Ceisiais sicrhau nad oedd fy ngwaith yn llesteirio cyrff cyhoeddus wrth fynd i'r afael â'r argyfwng, gan sicrhau ei fod yn parhau i gefnogi gwaith craffu a dysgu. Roeddem yn parhau i weithio ac ymgysylltu o bell lle bo hynny'n bosibl drwy ddefnyddio technoleg, ond ailgydiwyd yn rhywfaint o waith archwilio ar y safle lle roedd yn ddiogel ac yn briodol gwneud hynny. Mae'n anochel bod hyn wedi cael effaith ar sut rydym yn cyflawni gwaith archwilio ond mae hefyd wedi helpu i ymgorffori newidiadau cadarnhaol yn ein ffyrdd o weithio.

5 Fel yn y ddwy flynedd flaenorol, mae fy ngwaith archwilio cyfrifon wedi parhau o bell yn bennaf. Mae'r llwyddiant o ran cyflawni yn adlewyrchu ymdrech fawr ar y cyd gan fy staff a swyddogion y Bwrdd Iechyd.

6 Rwyf wedi addasu pwyslais ac ymagwedd fy ngwaith archwilio perfformiad er mwyn sicrhau ei berthnasedd yng nghyd-destun yr argyfwng ac i alluogi gweithio o bell. Rwyf wedi sôn am sut y mae GIG Cymru yn mynd i'r afael â'r ôl-groniad o gleifion sy'n aros am ofal wedi'i gynllunio. Mae fy nhimau archwilio lleol wedi sôn am sut mae trefniadau llywodraethu wedi addasu i ymateb i'r pandemig, a'r effaith y mae'r argyfwng wedi'i chael ar ddarparu gwasanaethau.

7 Mae'r adroddiad hwn yn grynodeb o'r materion a gyflwynwyd mewn adroddiadau manylach i'r Bwrdd Iechyd eleni (gweler **Atodiad 1**). Rwyf hefyd yn cynnwys crynodeb o statws y gwaith sy'n mynd rhagddo o hyd, neu sydd heb ei gyflawni eto.

8 Mae **Atodiad 2** yn cyflwyno'r amcangyfrif diweddaraf o'r ffi archwilio y bydd angen imi ei chodi i dalu am gostau ymgymryd â fy ngwaith, o'i gymharu â'r ffi wreiddiol a nodir yng Nghynllun Archwilio 2022.

9 Mae **Atodiad 3** yn nodi'r risgiau archwilio ariannol a nodwyd yn fy Nghynllun Archwilio 2022 a sut yr ymdriniwyd â nhw drwy'r archwiliad.

10 Mae'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Cyllid wedi cytuno ar gywirdeb ffeithiol yr adroddiad hwn. Cyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio a Risg ar 30 Mawrth 2023, a bydd y Pwyllgor Archwilio a Risg yn ei ystyried ar 19 Ebrill 2023. Rydym yn annog y Bwrdd Iechyd yn gryf i drefnu ei gyhoeddiad ehangach. Byddwn yn sicrhau bod yr adroddiad ar gael i'r cyhoedd ar wefan Archwilio Cymru ar ôl i'r Bwrdd ei ystyried.

11 Hoffwn ddiolch i staff ac aelodau'r Bwrdd Iechyd am eu cymorth a'u cydweithrediad drwy gydol fy archwiliad.

# Negeseuon allweddol

## Archwilio'r cyfrifon

12 Des i i'r casgliad bod cyfrifon y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2021-22[1] wedi'u paratoi'n briodol ac yn gywir iawn ac felly rwy'n cyhoeddi barn archwilio ddiamod arnynt. Nid wnaeth fy ngwaith nodi unrhyw wendidau perthnasol yn rheolaethau mewnol y Bwrdd Iechyd (fel sy'n berthnasol i'm harchwiliad).

13 Fodd bynnag, rwy'n amodi fy marn ar reoleidd-dra gan fod y cyfrifon yn cynnwys darpariaeth gyfrifo (a gwariant cyfatebol) o £943,000, yr wyf yn ei ystyried yn afreolaidd. Mae'r swm yn ymwneud ag atebolrwydd amcangyfrifedig y Bwrdd Iechyd sy'n deillio o Gyfarwyddyd Gweinidogol yn 2019 i Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru. Effeithiodd y mater hwn ar fyrddau iechyd eraill yng Nghymru hefyd.

14 Ni chefais unrhyw faterion rheoleidd-dra eraill o natur andwyol berthnasol. O ran perfformiad ariannol, llwyddodd y Bwrdd Iechyd i fantoli'r gyllideb ar gyfer y cyfnod o dair blynedd a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022, yn erbyn ei derfynau adnoddau refeniw a chyfalaf.

15 Cyflwynais 14 o faterion archwilio, ynghyd â'm hargymhellion archwilio, i swyddogion a Phwyllgor Archwilio a Risg y Bwrdd Iechyd. Derbyniodd swyddogion 13 o'r 14 argymhelliad yn ffurfiol a chytunwyd ar gamau rheoli a dyddiadau

[1] Rwy'n archwilio ac yn ardystio Adroddiad Perfformiad, Adroddiad Atebolrwydd a Datganiadau Ariannol y Bwrdd Iechyd.

gweithredu. Byddaf yn adolygu cynnydd y Bwrdd Iechyd o ran y camau gweithredu fel rhan o'm harchwiliad ar gyfer 2022-23.

## Trefniadau ar gyfer sicrhau defnyddio adnoddau yn effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus

16 Mae fy rhaglen o waith Archwilio Perfformiad wedi fy arwain i ddod i'r casgliadau canlynol:

- er gwaethaf y buddsoddiad ychwanegol mewn adfer rhestrau aros, mae'r cynnydd sylweddol yn nifer y bobl sy'n aros yn debygol o olygu na fydd rhestrau aros yn dychwelyd i'r lefelau a fodolai cyn y pandemig am flynyddoedd lawer.
- mae Bwrdd y Rhaglen Arweinyddiaeth Drawsnewidiol Partneriaeth Ranbarthol Cwm Taf Morgannwg mewn sefyllfa dda i ddatblygu gweithio rhanbarthol cryfach gan adeiladu ar y cysylltiadau cynhyrchiol dros y 18 mis diwethaf. Fodd bynnag, mae angen iddo sicrhau bod ei gynllunio yn fwy integredig a thymor hwy, cryfhau agweddau ar ei drefniadau llywodraethu, a bod yn fwy uchelgeisiol wrth ddefnyddio ei adnoddau craidd cyfunol i gael mwy o effaith ar ranbarth Cwm Taf Morgannwg.
- mae trefniadau contract yn dilyn y newid i ffiniau'r bwrdd iechyd yn 2019[2] yn gadarn ac wedi'u hategu gan brosesau goruchwylio gweithredol a rheoli prosiectau da. Fodd bynnag, ni fu rhaglen glir ar gyfer gwahanu gwasanaethau tan yn ddiweddar, ac mae diffyg capasiti comisiynu a rheoli rhaglenni, ochr yn ochr ag effaith COVID-19, wedi golygu nad yw'r amserlen wreiddiol wedi'i chyflawni. Mae angen gwella'r gwaith o oruchwylio a chraffu ar y rhaglen ar lefel Bwrdd a phwyllgorau yn y ddau Fwrdd Iechyd hefyd, yn ogystal â rheoli risg.
- gellid bod wedi osgoi cau'r Uned Mân Anafiadau yn Ysbyty Cwm Cynon dros dro pe bai camau wedi'u cymryd yn gynt i gryfhau'r prosesau goruchwylio gan reolwyr yr uned, yn ogystal â mynd i'r afael â'r pryderon a godwyd yn 2018-19 ynghylch hyfforddiant a chymwysterau staff.
- er bod trefniadau llywodraethu corfforaethol yn parhau i ddatblygu a gwella, mae angen i'r Bwrdd Iechyd gryfhau ei drefniadau ar gyfer mynd i'r afael â'r heriau sylweddol o ran perfformiad ac arian y mae'n eu hwynebu

[2] Ar 1 Ebrill 2019, cyflwynodd Llywodraeth Cymru newidiadau i ffiniau Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg (BIPABM) a Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf. Daeth Ysbytai Castell-nedd Port Talbot, Singleton a Threforys, a gwasanaethau sy'n ymwneud â phoblogaeth Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot yn rhan o Fwrdd Iechyd Prifysgol (BIP) newydd Bae Abertawe. Daeth Ysbyty Tywysoges Cymru, a arferai fod yn rhan o Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, yn rhan o Fwrdd Iechyd Prifysgol newydd Cwm Taf Morgannwg. Trosglwyddwyd y cyfrifoldeb comisiynu am anghenion iechyd poblogaeth Pen-y-bont ar Ogwr i BIPCTM.

17 Ystyrir y canfyddiadau hyn ymhellach yn yr adrannau canlynol.

# Archwilio'r cyfrifon

18 Mae paratoi cyfrifon blynyddol yn rhan hanfodol o ddangos stiwardiaeth arian cyhoeddus. Mae'r cyfrifon yn dangos perfformiad ariannol y sefydliad ac yn nodi ei asedau net, costau gweithredu net, enillion a cholledion, a llif arian. Mae fy archwiliad blynyddol o'r cyfrifon hynny yn rhoi barn ar eu cywirdeb a defnydd priodol ('rheoleidd-dra') o arian cyhoeddus.

19 Roedd fy Nghynllun Archwilio ar gyfer 2022 yn nodi'r risgiau allweddol ar gyfer archwilio'r cyfrifon ar gyfer 2021-22, a nodir y rhain ynghyd â sut yr aethpwyd i'r afael â nhw yn **Arddangosyn 4 – Atodiad 3**.

20 Mae fy nghyfrifoldebau wrth archwilio'r cyfrifon yn cael eu disgrifio yn fy nghyhoeddiadau Datganiad o Gyfrifoldebau, sydd ar gael ar wefan Archwilio Cymru.

## Cywirdeb a pharatoi cyfrifon 2022-22

21 Des i i'r casgliad bod cyfrifon y Bwrdd Iechyd ar gyfer wedi'u paratoi'n briodol ac yn gywir iawn (yn wir ac yn deg) a chyhoeddais farn archwilio ddiamod arnynt. Nid wnaeth fy ngwaith nodi unrhyw wendidau perthnasol yn rheolaethau mewnol y Bwrdd Iechyd (fel sy'n berthnasol i'm harchwiliad).

22 Cyflwynais 14 o faterion archwilio, ynghyd â'm hargymhellion archwilio, i'r swyddogion a Phwyllgor Archwilio a Risg y Bwrdd Iechyd. Derbyniodd swyddogion 13 o'r 14 argymhelliad yn ffurfiol a chytunwyd ar gamau rheoli a dyddiadau gweithredu.

23 Rhaid i mi roi gwybod am faterion sy'n codi o'm gwaith i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu (Aelodau'r Bwrdd), i'w hystyried cyn i mi roi fy marn archwilio ar y cyfrifon. Cyflwynodd fy nhîm adroddiad i'r Bwrdd am y materion hyn ar 14 Mehefin 2022. Mae **Arddangosyn 1** yn crynhoi'r materion allweddol a nodir yn yr adroddiad hwnnw.

**Arddangosyn 1: materion y rhoddwyd gwybod i'r Bwrdd amdanynt**

| Mater | Sylwadau'r Archwilydd |
|---|---|
| Camddatganiadau nas cywirwyd | Roedd dau faes o gamddatganiadau nas cywirwyd.<br>Mae'r maes cyntaf yn ymwneud â gwerth adeiladau'r Bwrdd Iechyd, gyda'u gwerth datgeledig ar 31 Mawrth 2022 wedi'i danddatgan £8.110 miliwn. Cafodd tri |

| Mater | Sylwadau'r Archwilydd |
|---|---|
| | datgeliad cysylltiedig eu cam-ddatgan hefyd gan symiau o £5.619 miliwn, £2.194 miliwn, a £327,588.<br>Roedd yr ail faes yn ymwneud â gorddatganiad o £815,212, mewn perthynas ag atebolrwydd cyfredol annilys yn ymwneud â chostau gwasanaethau meddygol cyffredinol.<br>Rwyf o'r farn nad yw'r camddatganiadau hyn yn berthnasol i'm barn archwilio ar gyfrifon 2021-22. |
| Camddatganiadau a gwiriwyd | Adroddais am y pedwar camddatganiad mwyaf arwyddocaol a gwiriwyd. Roeddent yn ymwneud yn bennaf â dosbarthiadau a datgeliadau cyfrifyddu. |
| Materion arwyddocaol eraill | Adroddais am 14 o argymhellion ar gyfer gwella, gydag ymatebion ffurfiol y rheolwyr, a ystyriwyd gan y Pwyllgor Archwilio a Risg y Bwrdd Iechyd ar 22 Awst 2022. |

24 Cynhaliais adolygiad o'r ffurflen Cyfrifon Llywodraeth Gyfan y Bwrdd Iechyd. Deuthum i'r casgliad bod y wybodaeth am atgyfnerthu cyfatebol yn gyson â sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd ar 31 Mawrth 2022 a bod y ffurflen wedi'i pharatoi yn unol â chyfarwyddiadau'r Trysorlys.

25 Archwiliais ddatganiadau ariannol cronfeydd elusennol 2021-22, a ardystiais gyda barn ddiamod ar 27 Ionawr 2023. Dyddiad cau blynyddol y Comisiwn Elusennau yw 31 Ionawr.

## Rheoleidd-dra'r trafodiadau ariannol

26 Rwy'n amodi fy marn ar reoleidd-dra gan fod cyfrifon 2021-22 yn cynnwys darpariaeth gyfrifo (a gwariant cyfatebol) o £943,000, yr wyf yn ei ystyried yn afreolaidd. Mae'r swm yn ymwneud ag atebolrwydd amcangyfrifedig y Bwrdd Iechyd sy'n deillio o Gyfarwyddyd Gweinidogol yn 2019 i Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru. Effeithiodd y mater hwn ar fyrddau iechyd eraill yng Nghymru hefyd.

27 Roedd y Cyfarwyddyd Gweinidogol yn ymdrin â'r angen am gamau adferol dros dro i fynd i'r afael ag effaith newidiadau Trysorlys EF i'r trefniadau treth ar gyfraniadau pensiwn uwch-glinigwyr. Rhoddais adroddiad naratif esboniadol ochr yn ochr â'm hadroddiad archwilio ar y cyfrifon.

28 Rhaid i drafodiadau ariannol y Bwrdd Iechyd fod yn unol ag awdurdodau sy'n eu rheoli. Rhaid i'r Bwrdd Iechyd gael y pwerau i dderbyn yr incwm ac ysgwyddo'r gwariant. Mae ein gwaith yn adolygu'r pwerau a'r profion hyn nad oes unrhyw elfennau perthnasol o incwm na gwariant nad oes gan y Bwrdd Iechyd y pwerau i'w derbyn na'u hysgwyddo.

29 Os nad yw Bwrdd Iechyd yn sicrhau cydbwysedd ariannol, mae ei wariant yn fwy na'i bwerau i wario ac felly mae'n rhaid i mi gymhwyso fy marn rheoleidd-dra. Mae **Arddangosyn 2 a 3** yn dangos bod y Bwrdd Iechyd wedi bodloni ei ddyraniadau refeniw ac adnoddau cyfalaf.

30 Ac eithrio'r £943,000, ni chefais unrhyw drafodion ariannol perthnasol nad oeddent yn unol ag awdurdodau nac yn cael eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd. O ran perfformiad ariannol, llwyddodd y Bwrdd Iechyd i fantoli'r gyllideb ar gyfer y cyfnod o dair blynedd a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022.

**Arddangosyn 2: perfformiad ariannol yn erbyn y dyraniad adnoddau refeniw**

| | **2019-20 £'000** | **2020-21 £'000** | **2021-22 £'000** | **Cyfanswm £'000** |
|---|---|---|---|---|
| Treuliau gweithredu | 1,066,192 | 1,234,552 | 1,278,665 | 3,579,409 |
| Dyraniad adnoddau refeniw | 1,067,075 | 1,234,640 | 1,278,837 | 3,580,552 |
| Tan-wariant (gorwariant) yn erbyn dyraniad | 883 | 88 | 172 | 1,143 |

**Arddangosyn 3: perfformiad ariannol yn erbyn y dyraniad adnoddau cyfalaf**

| | **2019-20 £'000** | **2020-21 £'000** | **2021-22 £'000** | **Cyfanswm £'000** |
|---|---|---|---|---|
| Taliadau cyfalaf | 38,328 | 52,231 | 79,154 | 169,713 |
| Dyraniad adnoddau cyfalaf | 38,332 | 52,278 | 79,196 | 169,826 |
| Tan-wariant (gorwariant) yn erbyn dyraniad | 24 | 47 | 42 | 113 |

Ffynhonnell: cyfrifon archwiliedig 2021-22

# Trefniadau ar gyfer sicrhau defnyddio adnoddau yn effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus

31 Mae gennyf ofyniad statudol i fodloni fy hun bod gan y Bwrdd Iechyd drefniadau priodol ar waith i sicrhau defnyddio adnoddau yn effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Rwyf wedi ymgymryd ag amrywiaeth o waith archwilio perfformiad yn y Bwrdd Iechyd dros y 12 mis diwethaf i'm helpu i gyflawni'r cyfrifoldeb hwnnw. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys:

- cynnal adolygiad lefel uchel o sut mae GIG Cymru yn mynd i'r afael â'r ôl-groniad mewn gofal wedi'i gynllunio;
- cynnal adolygiad llywodraethu sylfaenol o Fwrdd y Rhaglen Arweinyddiaeth Drawsnewidiol Partneriaeth Rhanbarthol Cwm Taf Morgannwg;
- cynnal adolygiad ar y cyd ym Myrddau Iechyd Prifysgol Bae Abertawe a Chwm Taf Morgannwg o'r trefniadau ar gyfer goruchwylio a rheoli'r cytundebau contractiol a sefydlwyd yn dilyn ad-drefnu ffiniau Byrddau Iechyd;
- cynnal adolygiad lefel uchel i archwilio'r materion sy'n ymwneud â chau'r Uned Mân Anafiadau yn Ysbyty Cwm Cynon dros dro; a
- chynnal asesiad strwythuredig o drefniadau corfforaethol y Bwrdd Iechyd ar gyfer sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus.

32 Mae fy nghasgliadau sy'n seiliedig ar y gwaith hwn wedi'u nodi isod.

## Mynd i'r afael â'r ôl-groniad mewn Gofal wedi'i Gynllunio yng Nghymru

33 Ym mis Mai 2022, cyhoeddais adroddiad a oedd yn nodi maint yr ôl-groniad mewn gofal wedi'i gynllunio yn GIG Cymru, a'r camau allweddol y mae angen i'r system eu cymryd i ddechrau mynd i'r afael â'r ôl-groniad. Pwysleisiodd fy adroddiad dwf parhaus niferoedd cyffredinol y rhestrau aros fis ar ôl mis, wrth nodi bod cyfradd y twf yn arafu. Nododd hefyd y byddai'r gostyngiad anochel mewn atgyfeiriadau a welwyd yn ystod y pandemig yn debygol o arwain at y galw cudd hwn yn dychwelyd i'r system yn y pen draw. O ystyried y ffactorau hyn a ffactorau eraill, amcangyfrifodd fy ngwaith y gallai gymryd cynifer â saith mlynedd cyn i niferoedd cyffredinol y rhestrau aros yng Nghymru ddychwelyd i'r lefelau a fodolai cyn y pandemig.

34 Mae Llywodraeth Cymru wedi llunio cynllun adfer cenedlaethol ar gyfer gofal wedi'i gynllunio gyda cherrig milltir allweddol i fyrddau iechyd eu cyflawni, gan gynnwys pwyslais cychwynnol ar y cleifion hynny sy'n wynebu cyfnodau aros hir iawn. Fodd bynnag, mae'r cerrig milltir hynny eisoes yn profi'n anodd eu cyflawni.

35 Yn unol â'r camau gweithredu allweddol a nodais yn fy adroddiad, bydd angen i'r Bwrdd Iechyd, ynghyd ag eraill yng Nghymru, feithrin ac amddiffyn y gallu ar gyfer gofal wedi'i gynllunio, a pharhau i ganolbwyntio ar effeithlonrwydd a chynhyrchiant.

36 Bydd angen i'r Bwrdd Iechyd hefyd sicrhau ei fod yn mynd ati i reoli'r risgiau clinigol i gleifion sy'n wynebu cyfnodau aros hir am driniaeth, a gwella ei systemau cyfathrebu â chleifion i'w helpu i reoli eu cyflwr tra byddant yn aros, gan roi gwybod iddynt beth i'w wneud os bydd eu cyflwr yn gwaethygu .

## Bwrdd y Rhaglen Arweinyddiaeth Drawsnewidiol – Adolygiad Llywodraethu Sylfaenol

37 Ystyriodd fy ngwaith a yw trefniadau llywodraethu Bwrdd y Rhaglen Arweinyddiaeth Drawsnewidiol (BRhAD) Cwm Taf Morgannwg yn cynorthwyo'r pedwar partner statudol[3] i ddatblygu dulliau effeithiol a chynaliadwy o weithio'n rhanbarthol?

38 O ran trefniadau cynllunio'r BRhAD, nododd fy ngwaith fod y cynllunio yn symud o sail fyrdymor i sail fwy tymor canolig â phwyslais cynyddol ar gyfnod cynllunio 5 mlynedd. Fodd bynnag, mae angen dull mwy integredig o ddatblygu safbwynt tymor hwy ar gynlluniau strategol, sy'n cefnogi cynlluniau partneriaid ac a fydd yn darparu hunaniaeth ranbarthol gryfach. Mae angen i'r BRhAD sicrhau bod ei gynllunio yn cael ei ysgogi gan anghenion y boblogaeth yn hytrach na'r gyfundrefn ariannu. ceir cyfleoedd hefyd i wella trefniadau ymgysylltu mewnol y BRhAD, yn enwedig o ran cynyddu lleisiau partneriaid anstatudol.

39 O ran trefniadau llywodraethu'r BRhAD, nododd fy ngwaith fod cadeiryddiaeth cyfarfodydd BRhAD yn effeithiol a gwelsom synergedd cryf rhwng y cyfarfodydd a arsylwyd gennym. Fodd bynnag, gwelsom rywfaint o amrywiaeth o ran ansawdd papurau cyfarfod, a thystiolaeth gyfyngedig o graffu a herio. Mae angen gwneud rhagor o waith o ran metrigau a cherrig milltir perfformiad allweddol, â'r dangosfwrdd canlyniadau a pherfformiad newydd heb ei weithredu eto. Mae'r is-grŵp cyllid wedi'i strwythuro'n dda, â thrafodaethau adeiladol ac adrodd ariannol manwl. Fodd bynnag, nid oedd Bwrdd y Rhaglen Drawsbynciol yn weithredol eto, er bod hwn yn rhan allweddol o'r bensaernïaeth lywodraethu a ddyluniwyd i oruchwylio datblygiad a darpariaeth gwasanaethau trawsbynciol rhanbarthol. At hynny, mae rheoli risg yn faes y mae angen ei gryfhau ac mae angen cyfleu risgiau cyffredin, blaenoriaethu, a chamau lliniaru yn well.

40 O ran adnoddau BRhAD, nododd fy ngwaith for y BRhAD yn datblygu ei ddull o ymdrin â threfn y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol o hyd. Er bod enghreifftiau o gyllid cyfun ac adnoddau a rennir, mae'r rhain yn brin, ac mae angen i'r cyrff cyhoeddus ystyried sut y gallant

[3] Y pedwar partner statudol yw: Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

ddefnyddio eu hadnoddau craidd cyfunol yn fwy effeithiol i gyflawni cynlluniau BRhAD a mynd i'r afael â'r heriau iechyd a gofal cymdeithasol sylweddol yn y rhanbarth. Mae'r partneriaid wedi datblygu cysylltiadau cryfach yn ystod y pandemig ac mae angen iddynt adeiladu ar y rhain i wneud hyn. Fel llawer o feysydd yn y sector cyhoeddus, ceir heriau gweithlu sylweddol yn y rhanbarth ac mae angen dull rhanbarthol a strategol o fynd i'r afael â'r rhain.

## Comisiynu a chontractio ar ôl newid ffiniau Pen-y-bont ar Ogwr

41 Roedd fy ngwaith yn ystyried cadernid y trefniadau ar gyfer goruchwylio a rheoli'r cytundebau contractiol a sefydlwyd yn dilyn ad-drefnu ffiniau byrddau iechyd yn 2019, a welodd y cyfrifoldeb comisiynu am anghenion iechyd poblogaeth Pen-y-bont ar Ogwr yn cael ei drosglwyddo i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg. Gwnaethom hefyd ystyried y rhaglen ar gyfer gwahanu gwasanaethau (ar gyfer gwasanaethau perthnasol), ac a yw'r trefniadau yn cefnogi modelau gwasanaeth rhanbarthol y dyfodol sy'n cael eu harchwilio gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg a Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe.

42 Nododd fy ngwaith fod y trefniadau contract yn gadarn ac wedi'u hategu gan brosesau goruchwylio gweithredol a rheoli prosiectau da. Fodd bynnag, ni fu rhaglen glir ar gyfer gwahanu gwasanaethau tan yn ddiweddar, ac mae diffyg capasiti comisiynu a rheoli rhaglenni, ochr yn ochr ag effaith COVID-19, wedi golygu nad yw'r amserlen wreiddiol wedi'i chyflawni. Mae angen gwella'r gwaith o oruchwylio a chraffu ar y rhaglen ar lefel Bwrdd a phwyllgorau yn y ddau fwrdd Iechyd hefyd, yn ogystal â rheoli risg.

43 Nododd fy ngwaith fod trefniadau rhaglen cynhwysfawr ar waith i ddarparu trosolwg gweithredol o drefniadau comisiynu Pen-y-bont ar Ogwr. Mae'r trefniadau llywodraethu gweithredol presennol yn gweithio'n dda, gydag arweinyddiaeth a chyfranogiad clir gan yr holl swyddogaethau corfforaethol perthnasol. Caiff agendâu cyfarfodydd eu rheoli'n dda. Fodd bynnag, nid yw staff gweithredol a chlinigol bob amser yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd, sy'n golygu bod materion a goblygiadau clinigol a gweithredol yn cael eu methu.

44 Mae'r trefniadau ar gyfer monitro'r cytundebau yn gadarn, a darperir gwybodaeth gyson i'r grwpiau gweithredol i sicrhau craffu. Caiff newidiadau i unrhyw gontractau eu rheoli'n dda, er bod lle i sicrhau bod unrhyw effeithiau o newidiadau i wasanaethau yn cael eu hasesu'n briodol. Mae cofrestr risg ar y cyd ar waith, sy'n cofnodi'r risgiau'n briodol. Fodd bynnag, nid oes proses glir ar gyfer uwchgyfeirio'r risgiau hyn i gofrestr risg y bwrdd iechyd perthnasol.

45 Er y bu cynnydd diweddar o ran gwahanu gwasanaethau, ni sylweddolwyd yr amser disgwyliedig i wahanu'r holl gontractau yn llawn. O ganlyniad, ni fu unrhyw gynllun gwahanu clir ar waith tan yn ddiweddar. Nid yw capasiti'r timau comisiynu wedi bod yn ddigonol er mwyn gallu rheoli rhaglenni'n effeithiol ac, yn ogystal ag

effaith COVID-19, mae wedi effeithio ar y gallu i wahanu gwasanaethau ar y gyfradd ddisgwyliedig. Er bod cynllun ar waith erbyn hyn, bydd y gallu i wahanu'r contractau sy'n weddill yn cael ei lesteirio heb gapasiti ychwanegol. Gallai cyfleoedd i edrych yn fwy cyffredinol ar weithio rhanbarthol gael eu colli o ganlyniad hefyd.

## Adolygu cau Uned Mân Anafiadau Ysbyty Cwm Cynon dros dro

46 Roedd fy ngwaith yn ystyried y materion yn ymwneud â chau Uned Mân Anafiadau (MIU) Ysbyty Cwm Cynon dros dro rhwng mis Medi 2021 a mis Mai 2022. Mae hwn yn wasanaeth a arweinir gan Ymarferwyr Nyrsio Argyfwng Brys (ENPs).

47 Canfu fy ngwaith fod yr Uned Mân Anafiadau wedi cau dros dro ar fyr rybudd yn bennaf oherwydd diffygion yn nhrefniadau goruchwylio rheolwyr yr Uned Mân Anafiadau a arweiniodd at:

- yr uned yn gweithredu gyda staff nad oedd eu cymhwysedd i weithio'n annibynnol wedi'i asesu'n ddigonol, er gwaethaf pryderon ynghylch hyfforddiant a goruchwyliaeth staff a godwyd mor bell yn ôl â 2018-19;
- uned fregus a oedd yn gweithredu i'w llawn botensial oherwydd diffyg buddsoddiad mewn staff cymorth i alluogi ENPs i reoli gofynion llwyth gwaith yn effeithlon; a
- staff ddim yn cael arfarniadau perfformiad cyfredol; fodd bynnag, nid yw'r sefyllfa hon yn unigryw i'r Uned Mân Anafiadau.

48 Nodwyd gennym fod cau'r Uned Mân Anafiadau dros dro wedi arwain at lai o opsiynau gwasanaeth ar gael i breswylwyr, ac wedi cynyddu nifer yr unigolion a oedd yn mynd i'r Adran Achosion Brys yn Ysbyty'r Tywysog Siarl (YTS), a oedd eisoes yn gweithredu dan bwysau sylweddol.

49 Cyflwynodd y Bwrdd Iechyd adroddiad ffurfiol ar y penderfyniad i gau'r Uned Mân Anafiadau dros dro i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch. Er i'e Bwrdd Iechyd benderfynu bod y risg o niwed i gleifion o gael eu gweld yn Uned Mân Anafiadau Ysbyty Cwm Cynon yn fach iawn, ni chafodd hyn ei adrodd yn ffurfiol i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch, gan gyfyngu ar gyfleoedd i alluogi gwaith craffu llawn a rhoi sicrwydd. At hynny, nodwyd gennym nad yw'r Bwrdd Iechyd wedi asesu nac adrodd ar yr effaith ar brofiad y claf, nac ansawdd y gofal a ddarperir i breswylwyr y mae'n ofynnol iddynt fynd i'r Adran Achosion Brys yn YTS yn dilyn cau'r Uned Mân Achosion.

50 Yn fwy cadarnhaol, nodwyd gennym fod trefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer rhoi gwybod i gleifion, y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch, a rhanddeiliaid allweddol eraill am gau'r uned dros dro, yn ogystal â'i drefniadau ar gyfer adleoli staff yr Uned Mân Anafiadau, yn effeithiol.

## Asesiad strwythuredig

51 Cynhaliwyd fy ngwaith asesu strwythuredig yn 2022 ar adeg lle roedd cyrff y GIG nid yn unig yn parhau i fynd i'r afael â'r heriau a gyflwynwyd gan COVID-19, ond roeddent hefyd yn ceisio adfer a thrawsnewid gwasanaethau i ymateb i'r niferoedd sylweddol o bobl sy'n aros am driniaeth a gwella iechyd y boblogaeth.

52 Canolbwyntiodd fy nhîm ar drefniadau corfforaethol y Bwrdd Iechyd ar gyfer sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus, gan ganolbwyntio'n benodol ar drefniadau llywodraethu'r sefydliad; trefniadau cynllunio strategol; trefniadau rheolaeth ariannol; a threfniadau ar gyfer rheoli'r gweithlu, asedau digidol, yr ystâd, ac asedau ffisegol eraill. Talodd yr archwilwyr sylw hefyd i'r cynnydd a wnaed i fynd i'r afael ag argymhellion blaenorol.

### Trefniadau llywodraethu

53 Ystyriodd fy ngwaith drefniadau llywodraethu'r Bwrdd Iechyd, gan ganolbwyntio'n benodol ar y canlynol:

- effeithiolrwydd y Bwrdd a phwyllgorau;
- i ba raddau y mae cymorth dylunio sefydliadol yn cefnogi trefniadau llywodraethu da; a
- systemau sicrwydd allweddol.

54 Canfu fy ngwaith fod **trefniadau llywodraethu ac arwain y Bwrdd Iechyd yn gwella, a bod strwythurau sefydliadol yn cael eu hadnewyddu i gefnogi gwelliannau pellach. Fodd bynnag, mae angen i'r Bwrdd Iechyd atgyfnerthu ei systemau sicrwydd ymhellach i fynd i'r afael yn llawn â'r heriau perfformiad sy'n wynebu'r sefydliad.**

55 Canfu fy ngwaith fod trefniadau llywodraethu'r Bwrdd Iechyd yn cefnogi'r gwaith o gynnal busnes y Bwrdd a'r pwyllgorau yn effeithiol. Mae'r Bwrdd wedi ymrwymo i gynnal ei fusnes mewn modd agored; fodd bynnag, mae cyfleoedd ar gael i wella trefniadau gweinyddol y Bwrdd Iechyd ar gyfer sicrhau tryloywder cyhoeddus o fusnes y Bwrdd. Mae gan y Bwrdd Iechyd gnewyllyn sefydlog, medrus a phrofiadol o Aelodau Annibynnol sy'n darparu cydbwysedd da o her a chymorth. Mae gan y Bwrdd Iechyd strwythur pwyllgorau sefydlog, sydd wedi'i hen sefydlu, ac mae'r papurau a baratowyd ar gyfer cyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau yn rhoi digon o fanylion i alluogi craffu a gwneud penderfyniadau. Mae'r Bwrdd yn dangos ymrwymiad da i glywed gan staff a chleifion, ac mae ganddo drefniadau effeithiol ar gyfer hunan-adolygu a gwella.

56 Nodwyd gennym fod y Bwrdd Iechyd wedi cymryd camau cadarnhaol i gryfhau a sefydlogi ei Dîm Gweithredol yn ogystal â sicrhau bod gan Gyfarwyddwyr Gweithredol gyfrifoldebau clir a phortffolios gwaith cytbwys a theg. Mae'r Tîm Llywodraethu Corfforaethol yn rhoi cymorth da i'r Bwrdd a'i bwyllgorau, er nad oes ganddo gyflenwad llawn o staff. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud nifer o newidiadau cadarnhaol i rôl y Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol, a ddylai

ganiatáu i ddeiliad y swydd ganolbwyntio'n gyfan gwbl ar drefniadau llywodraethu'r Bwrdd Iechyd. Mae'r Bwrdd wedi cymeradwyo creu model gweithredu newydd gyda'r nod o gefnogi adferiad ar ôl y pandemig, gwella ansawdd gwasanaeth, symleiddio trefniadau rheoli, a hwyluso cydweithio ar draws y Bwrdd Iechyd. Er bod y Bwrdd wedi cynnal trosolwg da o ran datblygu'r model gweithredu newydd a'i roi ar waith, bydd yn cymryd amser i'r strwythurau newydd wreiddio a chyflawni'r buddion a'r gwelliannau bwriadedig.

57 Nodwyd gennym fod trefniadau rheoli risg y Bwrdd Iechyd yn parhau i esblygu. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd cadarnhaol o ran datblygu Fframwaith Sicrwydd Bwrdd, y mae'n rhaid iddo ei ddefnyddio erbyn hyn i lywio busnes y Bwrdd a'r pwyllgorau. Er bod gan y Bwrdd Iechyd drefniadau effeithiol ar gyfer adrodd ar berfformiad i'r Bwrdd, mae ei berfformiad y gwaethaf yng Nghymru o hyd mewn nifer o feysydd, sydd wedi arwain at ei uwchgyfeirio o drefniadau arferol i waith monitro gwell ar gyfer perfformiad o dan Drefniadau Uwchgyfeirio ac Ymyrraeth Llywodraeth Cymru[4]. Felly, mae angen i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod ei drefniadau rheoli perfformiad ac adrodd yn canolbwyntio'n briodol ar yr heriau allweddol y mae'n eu hwynebu mewn gofal wedi'i gynllunio a gofal brys a gofal mewn argyfwng, yn enwedig lle bo perfformiad yn y meysydd hynny yn gymharol waeth na Byrddau Iechyd eraill yng Nghymru. Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau priodol ar gyfer goruchwylio trefniadau llywodraethu gwybodaeth ar lefel y pwyllgor, ond mae angen gwella rhai trefniadau gweithredol. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cymryd nifer o gamau cadarnhaol i wella ei drefniadau ar gyfer olrhain argymhellion mewnol ac allanol, ond mae angen gwneud rhagor o welliannau.

## Trefniadau cynllunio strategol

58 Roedd fy ngwaith yn ystyried trefniadau cynllunio strategol y Bwrdd Iechyd, gan ganolbwyntio'n benodol ar y canlynol:

- gweledigaeth ac amcanion strategol;
- Cynllun Tymor Canolig Integredig;
- trefniadau cynllunio; a
- threfniadau ar gyfer gweithredu a monitro'r gwaith o gyflwyno strategaethau a chynlluniau corfforaethol.

59 Canfu fy ngwaith fod **trefniadau cynllunio strategol y Bwrdd Iechyd yn parhau i wella, a bod cynnydd cadarnhaol wedi'i wneud o ran datblygu gweledigaeth a strategaeth hirdymor glir ar gyfer y sefydliad. Rhaid i'r gwaith o baratoi Strategaeth Glinigol ac CTCI cymeradwy, a gwella trefniadau adrodd, barhau i fod yn flaenoriaethau allweddol i'r Bwrdd Iechyd.**

60 Canfu fy ngwaith fod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd da o ran datblygu ei strategaeth hirdymor ar gyfer y sefydliad, CTM 2030. Mae'r strategaeth yn darparu

[4] Mae pedair lefel uwchgyfeirio: trefniadau arferol, monitro uwch, ymyrraeth wedi'i thargedu, a mesurau arbennig.

gweledigaeth glir ar gyfer y Bwrdd Iechyd ac yn nodi pedwar nod strategol, y mae gan bob un ohonynt bedair blaenoriaeth glir ar gyfer gweithredu. Mabwysiadodd y Bwrdd y weledigaeth, y nodau strategol a'r blaenoriaethau yn ffurfiol ym mis Mawrth 2022 ar ôl ymgysylltu'n helaeth â staff, preswylwyr, partneriaid a rhanddeiliaid eraill. Mae'r Bwrdd Iechyd wrthi'n datblygu Strategaeth Glinigol ar gyfer y sefydliad yng nghyd-destun CTM 2030.

61 Nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi gallu llunio Cynllun Tymor Canolig Integredig ar gyfer 2022-2025 sy'n gytbwys yn ariannol ac a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru oherwydd ei sefyllfa ariannol heriol. Yn lle hynny, cynhyrchodd Gynllun Blynyddol ar gyfer 2022-23. O ganlyniad, mae'r Bwrdd Iechyd wedi symud o drefniadau arferol i waith monitro gwell ar gyfer cynllunio a chyllid o dan Drefniadau Uwchgyfeirio ac Ymyrraeth Llywodraeth Cymru.

62 Nodwyd gennym fod y Bwrdd wedi cynnal trosolwg effeithiol o drefniadau'r sefydliad ar gyfer datblygu strategaethau a chynlluniau corfforaethol, yn enwedig CTM 2030. Mae'r Bwrdd wedi chwarae rhan weithredol yn y gwaith o lunio'r weledigaeth hirdymor, nodau strategol, a blaenoriaethau ar gyfer CTM 2030 drwy weithdai, sesiynau datblygu, a thrafodaethau rheolaidd mewn cyfarfodydd Bwrdd cyhoeddus. Mae gan y Bwrdd Iechyd ddull cadarnhaol hefyd o ymgysylltu â rhanddeiliaid. Mae wedi dangos ymgysylltiad cryf ag ystod amrywiol o'r rhanddeiliaid wrth ddatblygu CTM 2030, gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau i ymgysylltu â phreswylwyr, staff, a phartneriaid allanol.

63 Er bod CTM 2030 yn pennu cyfeiriad pendant ar gyfer y Bwrdd Iechyd, nodwyd gennym nad oes ganddo ganlyniadau clir a mesuradwy ar hyn o bryd. Mae Grŵp Llywio a Grwpiau Strategaeth CTM 2030 wrthi'n datblygu canlyniadau ar gyfer pob blaenoriaeth strategol, gan nodi sut beth fyddai llwyddiant, a nodi sut i fesur ac adrodd ar gynnydd. Fodd bynnag, mae lle i gyflymu'r gwaith hwn. Mae Cynllun Blynyddol 2022-23 yn cynnwys ystod o wahanol gamau gweithredu/canlyniadau, amserlenni a mesurau, y mae rhai ohonynt yn ymwneud â'r nodau a'r blaenoriaethau strategol a nodir yn CTM 2030. Fodd bynnag, ni chânt eu crynhoi na'u cyflwyno mewn ffordd sy'n galluogi cynnydd i gael ei fonitro a'i gofnodi yn effeithiol bob chwarter, ac mae diffyg manylion ynghylch pa Gyfarwyddwyr Gweithredol sy'n gyfrifol am sicrhau darpariaeth. Mae'r Bwrdd Iechyd yn rhoi diweddariadau rheolaidd ar gyflawni strategaethau a chynlluniau corfforaethol i'r Pwyllgor Cynllunio, Perfformiad a Chyllid. Fodd bynnag, mae'r adroddiadau ar lefel uchel iawn o ran natur ac nid ydynt yn darparu digon o wybodaeth i alluogi craffu, her a sicrwydd llawn.

## Rheoli adnoddau ariannol

64 Roedd fy ngwaith yn ystyried trefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer rheoli ei adnoddau ariannol, gan ganolbwyntio'n benodol ar y canlynol:

- trefniadau ar gyfer cyflawni amcanion ariannol allweddol;
- rheolaethau ariannol; a

- trefniadau ar gyfer adrodd a monitro perfformiad ariannol.

65 Canfu fy ngwaith fod gan **y Bwrdd Iechyd drefniadau clir ar gyfer cynllunio ariannol, a bod craffu da wedi bod ar ei gyllid. Er i'r Bwrdd Iechyd gyflawni ei ddyletswyddau ariannol ar gyfer 2021-22, mae'n wynebu sawl risg o ran cyflawni cydbwysedd ariannol a chynaliadwyedd yn y tymor byr a'r tymor canolig**.

66 Ar ddiwedd 2021-22, cyflawnodd y Bwrdd Iechyd ei ddyletswydd ariannol i weithredu o fewn ei derfyn adnoddau refeniw blynyddol ac o fewn ei derfyn adnoddau cronnol ar gyfer y cyfnod treigl o dair blynedd rhwng 2019-20 a 2021-22. Cyflawnodd y Bwrdd Iechyd hefyd ei ddyletswydd ariannol ar gyfer 2021-22 i adennill costau yn erbyn ei derfyn adnoddau cyfalaf treigl blynyddol a thair blynedd. Fodd bynnag, gan iddo fethu â chyrraedd ei darged arbedion o £11.1 miliwn ar gyfer 2021-22, dechreuodd y flwyddyn ariannol 2022-23 gyda diffyg cronedig gwaelodol o £44.5 miliwn.

67 Mae cynllun ariannol y Bwrdd Iechyd wedi'i nodi'n glir yng Nghynllun Blynyddol 2022-23. Mae'r Bwrdd Iechyd yn ceisio rheoli ei heriau ariannol drwy wella rhagolygon, nodi camau unioni, a chyflawni arbedion cost. Fodd bynnag, nid yw'n ymddangos bod y trefniadau hyn yn ddigon cadarn. Ym Mis 9, 2022-23, roedd y Bwrdd Iechyd yn nodi diffyg o £7.2 miliwn mewn arbedion rheolaidd, a gorwariant o £5.8 miliwn ac £11 miliwn mewn Grwpiau/Cyfarwyddiaethau Rhagnodi Gofal Sylfaenol a Gofal wedi'i Gynllunio yn y drefn honno. Ar adeg cyflawni fy ngwaith, nid oedd y Bwrdd Iechyd ar y trywydd iawn i gyflawni ei holl ddyletswyddau ariannol yn 2022-23. Ym mis 9, 2022-23, nododd y Bwrdd Iechyd ddiffyg o £21.3 miliwn y flwyddyn hyd yn hyn yn erbyn ei gynllun refeniw craidd, a oedd £1.4 miliwn yn waeth na'r disgwyl. Fodd bynnag, roedd y Bwrdd Iechyd yn rhagweld y byddai diffyg y cynllun craidd yn parhau ar £26.5 miliwn yn unol â'r cynllun craidd a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru. Mae'r Bwrdd Iechyd ar y trywydd iawn i aros o fewn ei derfyn adnoddau cyfalaf ar gyfer 2022-23.

68 Gwelsom fod gan y Bwrdd Iechyd drefniadau digonol ar waith er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'i Gyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog a'i Gynllun Cadw a Dirprwyo. Ni welsom unrhyw wendidau rheoli sylweddol o'n hadolygiad o ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2021-22. Fodd bynnag, fel y nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, gwnaethom 14 o argymhellion ar gyfer gwella, a oedd yn cynnwys yr angen i'r Bwrdd Iechyd geisio cymeradwyaeth amserol ar gyfer penodi unrhyw uwch-swyddog a fyddai'n mynd dros y band cyflog perthnasol a awdurdodwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn cynnal trosolwg effeithiol o drefniadau a pherfformiad y Bwrdd Iechyd mewn perthynas â chamau tendro unigol, taliadau arbennig, colledion, a gwrth-dwyll. Er bod Gweithdrefnau Rheolaeth Ariannol y Bwrdd Iechyd yn effeithiol ar y cyfan, gwnaethom nodi cyfleoedd i gryfhau rheolaethau ymhellach drwy osod terfyn ariannol uwch dirprwyedig clir ar gyfer y Prif Weithredwr, a sicrhau bod proses glir ar waith i'r Bwrdd adolygu a chymeradwyo rhaglenni cyfalaf a prosiectau.

69 Nodwyd gennym fod gan y Bwrdd Iechyd drefniadau effeithiol ar waith ar gyfer adrodd ar berfformiad ariannol i'r Bwrdd a'r Pwyllgor Cynllunio, Perfformiad a Chyllid. Mae adroddiadau yn darparu gwybodaeth amserol o ansawdd da, ac yn cynnwys cymysgedd dda o destun ac arddangosion i gyfleu negeseuon allweddol. Fodd bynnag, mae cyfleoedd ar gael i wella'r adroddiadau drwy roi mwy o sicrwydd bod camau lliniaru ar waith i fynd i'r afael â risgiau ariannol allweddol, ac adrodd ar berfformiad y Grwpiau Gofal newydd. Rydym wedi arsylwi ar waith craffu a her dda o amgylch sefyllfa ariannol y sefydliad yng nghyfarfodydd y Bwrdd a'r Pwyllgor Cynllunio, Perfformiad a Chyllid.

## Rheoli'r gweithlu, adnoddau digidol, yr ystad, ac asedau ffisegol eraill

70 Roedd fy ngwaith yn ystyried trefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer rheoli ei adnoddau ehangach, gan ganolbwyntio'n benodol ar y canlynol:

- trefniadau ar gyfer cefnogi llesiant staff;
- trefniadau ar gyfer rheoli ei adnoddau digidol; a
- trefniadau ar gyfer rheoli ei ystad ac asedau ffisegol eraill.

71 Canfu fy ngwaith fod **llesiant y staff yn parhau i fod yn flaenoriaeth glir i'r Bwrdd Iechyd. Fodd bynnag, mae angen mynd i'r afael â heriau o ran capasiti a chyllid er mwyn galluogi'r Bwrdd Iechyd i wneud y defnydd gorau posibl o fuddion digidol, ac mae angen cryfhau'r trosolwg ar lefel y Bwrdd** o faterion sy'n ymwneud â'r ystad.

72 Nodwyd gennym fod gan y Bwrdd Iechyd drefniadau effeithiol ar waith ar gyfer ceisio barn staff am eu hanghenion llesiant a defnyddio adborth staff i lywio ei gynnig llesiant. Mae'r Bwrdd Iechyd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd am ei weithgareddau llesiant a pherfformiad yn erbyn metrigau'r gweithlu i'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant. Er bod adroddiadau yn rhoi trosolwg da o weithgarwch, nid ydynt yn rhoi digon o sicrwydd bod ymyriadau llesiant yn cael effaith gadarnhaol ar lesiant staff.

73 Mae bwriadau digidol strategol y Bwrdd Iechyd wedi'u nodi'n glir yn ei Strategaeth Ddigidol, y bydd yn ei hadolygu fel rhan o'i drefniadau ar gyfer datblygu Strategaeth Glinigol y sefydliad. Fodd bynnag, mae capasiti a chyllid cyfalaf cyfyngedig yn y Bwrdd Iechyd i gyflawni'r agenda trawsnewid digidol yn llawn. Er bod y risgiau hyn yn cael eu hadlewyrchu'n briodol yn y BAF, dylai'r Bwrdd Iechyd geisio nodi yn ei Strategaeth Ddigidol ar ei newydd wedd sut y mae'n bwriadu goresgyn heriau staffio ac ariannu er mwyn manteisio'n llawn ar y buddion a gynigir gan dechnolegau ac atebion digidol.

74 Nid oes gan y Bwrdd Iechyd Strategaeth Ystadau ar hyn o bryd, ond mae'n bwriadu datblygu un yn ystod 2023. Mae angen cryfhau trefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer sicrhau trosolwg priodol ar lefel y Bwrdd o gyflwr yr ystad ac asedau ffisegol eraill. Er bod Bwrdd Llywodraethu Cyfalaf ac Ystadau'r Bwrdd Iechyd yn cynnal trosolwg gweithredol, nid yw'n darparu adroddiadau sicrwydd i'r Pwyllgor

Cynllunio, Perfformiad a Chyllid. Felly, mae angen i'r Bwrdd Iechyd sicrhau y cyflwynir adroddiadau rheolaidd ar ddangosyddion perfformiad sy'n ymwneud ag ystadau a risgiau i'r Pwyllgor Cynllunio, Perfformiad a Chyllid. Mae angen iddo hefyd ddiweddaru Cylch Gorchwyl y pwyllgor i adlewyrchu'r cyfrifoldebau hyn, a sefydlu proses glir ar gyfer sicrhau bod materion yn cael eu croesgyfeirio'n briodol gyda'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch, sy'n goruchwylio materion iechyd a diogelwch.

# Atodiad 1

## Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf

**Arddangosyn 4: adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf**

Mae'r tabl canlynol yn rhestru'r adroddiadau a roddwyd i'r Bwrdd Iechyd yn 2022.

| Adroddiad | Dyddiad |
|---|---|
| **Adroddiadau archwilio ariannol** | |
| Adroddiad Archwilio Datganiadau Ariannol | Mehefin 2022 |
| Barn ar y Datganiadau Ariannol | Mehefin 2022 |
| Atodiad Adroddiad Archwilio Datganiadau Ariannol | Awst 2022 |
| Cronfeydd Elusennol (Cyfrifon 2020-21) | Ionawr 2022 |
| Cronfeydd Elusennol (Cyfrifon 2021-22) | Ionawr 2023 |
| **Adroddiadau archwilio perfformiad** | |
| Mynd i'r Afael â'r Ôl-groniad mewn Gofal wedi'i Gynllunio yng Nghymru | Mai 2022 |
| Bwrdd y Rhaglen Arweinyddiaeth Drawsnewidiol – Adolygiad Llywodraethu Sylfaenol | Mai 2022 |
| Trefniadau Comisiynu a chontractio ar ôl newid ffiniau Pen-y-bont ar Ogwr – Byrddau Iechyd Prifysgol Bae Abertawe a Chwm Taf Morgannwg | Tachwedd 2022 |

| Adroddiad | Dyddiad |
|---|---|
| Adolygu cau Uned Mân Anafiadau Ysbyty Cwm Cynon dros dro | Chwefror 2023 |
| Asesiad Strwythuredig 2022 | Mawrth 2023 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg – Mynd i'r afael ag ôl-groniad Rhestr Aros Gwasanaethau Orthopedig | Mawrth 2023 |
| **Arall** | |
| Cynllun Archwilio 2022 | Ebrill 2022 |

Roedd fy rhaglen ehangach o astudiaethau gwerth am arian cenedlaethol yn 2022 yn cynnwys adolygiadau a oedd yn canolbwyntio ar y GIG a phynciau ar gyfer y sector cyhoeddus. Mae'r astudiaethau hyn fel arfer yn cael eu hariannu drwy Gronfa Gyfunol Cymru ac fe'u cyflwynir i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus i gefnogi ei waith craffu ar wariant cyhoeddus. Mae adroddiadau ar gael ar wefan Archwilio Cymru.

**Arddangosyn 5: gwaith archwilio perfformiad sy’n dal i fynd rhagddo**

Mae nifer o archwiliadau perfformiad yn dal i fynd rhagddynt yn y Bwrdd Iechyd. Dangosir y rhain yn y tabl canlynol, gyda'r dyddiadau tybiedig ar gyfer cwblhau'r gwaith.

| Adroddiad | Dyddiad cwblhau tybiedig |
|---|---|
| Gofal heb ei drefnu | Ebrill 2023 |
| Cydadolygiad Dilynol – Trefniadau Llywodraethu Ansawdd | Mehefin 2023 |
| Adolygiad Dilynol o Wasanaethau Gofal Sylfaenol | Mehefin 2023 |
| Gofal heb ei drefni – mynediad i wasanaethau gofal heb ei drefnu | Gorffennaf 2023 |

# Atodiad 2

## Ffi archwilio

Mae fy Nghynllun Archwilio 2022 yn nodi amcangyfrif o’r ffi o £416,770 (ac eithrio TAW, na ellir ei godi). Rwyf hefyd yn gosod amcangyfrif o ffioedd o £25,000 yng Nghynllun Archwilio 2022 ar gyfer fy archwiliad o ddatganiadau ariannol y cronfeydd elusennol. Gallaf gadarnhau bod ad-daliad o £12,996 mewn perthynas â'r £416,770 sy'n ymwneud â'm gwaith archwilio cyfrifon; a thâl ychwanegol o £1,832 mewn perthynas â'm gwaith archwilio cronfeydd elusennol.

# Atodiad 3

## Risgiau archwilio ariannol

**Arddangosyn 6: risgiau archwilio ariannol**

Mae fy Nghynllun Archwilio 2022 yn nodi'r risgiau archwilio ariannol ar gyfer archwilio cyfrifon 2021-22 y Bwrdd Iechyd. Mae'r tabl isod yn rhestru'r risgiau hyn ac yn nodi sut yr ymdriniwyd â nhw fel rhan o'r archwiliad.

| Risg archwilio | Ymateb archwilio arfaethedig | Gwaith a wnaed a chanlyniad |
|---|---|---|
| Mae'r risg o wrth-wneud rheolaethau gan y rheolwyr yn bresennol ym mhob endid. Oherwydd y ffordd anrhagweladwy y gallai gwrth-wneud o'r fath ddigwydd, ystyrir ei fod yn risg sylweddol [ISA 240.31-33]. | Byddaf yn:<br>• profi priodoldeb cofnodion cyfnodolion ac addasiadau eraill a wnaed wrth baratoi'r datganiadau ariannol;<br>• adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu ar gyfer rhagfarn;<br>• gwerthuso'r rhesymeg dros unrhyw drafodiadau arwyddocaol y tu allan i gwrs busnes arferol;<br>• rhoi gweithdrefnau ychwanegol ar waith i fynd i'r afael ag unrhyw risgiau penodol o ran gwrth-wneud gan reolwyr nad ydynt yn cael sylw gan y gwaith gorfodol uchod. | Adolygais nifer o'r amcangyfrifon cyfrifyddu a sampl o drafodiadau a oedd yn cynnwys cofnodion cyfnodolion.<br>Ymgymerais â gwaith archwilio estynedig sylweddol mewn perthynas â rhwymedigaethau cyfredol y Bwrdd Iechyd. Er bod canfyddiadau fy archwiliad yn foddhaol i raddau helaeth, canfûm rwymedigaeth hen ac annilys o £815,212, y dylai swyddogion fod wedi'i nodi a'i chywiro, cyn yr archwiliad. Fel yr adroddwyd yn **Arddangosyn 1**, ni chywirodd swyddogion y camddatganiad hwn. |
| O dan Ddeddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014, rhoddodd fyrddau iechyd y gorau i gael terfynau adnoddau blynyddol o 1 Ebrill | Byddaf yn parhau i fonitro sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2021-22 a'r sefyllfa gronnol o dair blynedd hyd at 31 Mawrth | Fel y nodwyd yn yr adroddiad hwn, cadarnhaodd fy archwiliad fod y Bwrdd Iechyd wedi bodloni ei ddyraniadau |

| Risg archwilio | Ymateb archwilio arfaethedig | Gwaith a wnaed a chanlyniad |
|---|---|---|
| 2014. Yn lle hynny, symudodd byrddau iechyd i derfyn adnoddau treigl tair blynedd ar gyfer refeniw a chyfalaf. Roedd y cyfnod tair blynedd cyntaf yn rhedeg tan 31 Mawrth 2017.<br>Ar gyfer 2021-22 a'r tair blynedd hyd at 31 Mawrth 2022, mae'r Bwrdd Iechyd yn rhagweld[5] y bydd yn gweithredu o fewn ei derfynau adnoddau refeniw a chyfalaf, yn amodol ar gyllid COVID-19 disgwyliedig o £19.8 miliwn ar gyfer 2021-22 gan Lywodraeth Cymru. Os bydd y Bwrdd Iechyd yn derbyn y cyllid disgwyliedig, ac yn cynnal<br>ei ragolygon, byddai'n cefnogi barn ddiamod ar reoleidd-dra.<br>Fodd bynnag, mae eich pwysau ariannol presennol yn cynyddu'r risg y gallai barnau ac amcangyfrifon rheolwyr fod yn unochrog mewn ymdrech i gyflawni'r ddyletswydd ariannol. | Bydd yr adolygiad hwn hefyd yn ystyried effaith unrhyw gamddatganiadau perthnasol heb eu cywiro dros y tair blynedd hynny.<br>Os bydd y Bwrdd Iechyd yn methu â bodloni'r terfynau adnoddau tair blynedd ar gyfer refeniw a/neu gyfalaf, byddwn yn disgwyl cymhwyso fy marn rheoleidd-dra ar ddatganiadau ariannol 2021-22. Byddwn hefyd yn disgwyl rhoi adroddiad sylweddol ar y datganiadau i esbonio sail y cymhwyster a'r amgylchiadau yr oedd wedi codi oddi tano. | adnoddau tair blynedd ar gyfer refeniw a chyfalaf. |

[5] Yn seiliedig ar ragolwg diwedd blwyddyn Mis 11, y mae'r Bwrdd Iechyd wedi adrodd arno i Lywodraeth Cymru.

| Risg archwilio | Ymateb archwilio arfaethedig | Gwaith a wnaed a chanlyniad |
|---|---|---|
| Mae gweithredu'r fenter 'cynllun yn talu' mewn perthynas â threfniadau treth pensiwn y GIG ar gyfer staff clinigol yn parhau. Y llynedd, fw wnes i gynnwys paragraff 'Pwyslais ar Fater' yn fy marn archwilio gan dynnu sylw at eich datgeliad o'r atebolrwydd amodol. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ceisiadau i'r cynllun yw 31 Mawrth 2022, ac os bydd unrhyw wariant yn cael ei wneud yn ystod y flwyddyn, byddem o'r farn ei fod yn afreolaidd, gan ei fod yn mynd yn groes i ofynion Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru. | Byddaf yn adolygu'r dystiolaeth mewn blwyddyn mewn perthynas â'r nifer sy'n manteisio ar y cynllun a'r angen am ddarpariaeth, a'r effaith ganlyniadol ar y farn rheoleidd-dra. | Fel y nodir yn yr adroddiad hwn, ar gyfer 2021-22, darparodd y Bwrdd Iechyd ar gyfer rhwymedigaeth a chostau amcangyfrifedig o £943,000 ac, fel y cynghorwyd yng Nghynllun Archwilio 2022, gwnes i amodi fy marn ar reoleidd-dra yn briodol. |
| Er bod cyfyngiadau COVID-19 i fod i gael eu dileu yng Nghymru ar 28 Mawrth 2022, bu pwysau parhaus ar adnoddau staff a gweithio o bell a allai effeithio ar baratoi, archwilio a chyhoeddi'r datganiadau ariannol. Mae risg y gallai ansawdd y cyfrifon a'r papurau gwaith ategol fod mewn perygl, gan arwain at fwy o gamgymeriadau. | Byddaf yn parhau i drafod eich proses cau a'ch trefniadau monitro ansawdd gyda'r swyddogion perthnasol. | Fe wnes i barhau â'm trafodaethau gyda swyddogion a monitro'r trefniadau sydd ar waith ac rwy'n falch o nodi nad oedd unrhyw broblemau sylweddol wedi codi. |

| Risg archwilio | Ymateb archwilio arfaethedig | Gwaith a wnaed a chanlyniad |
|---|---|---|
| Mae ffrydiau ariannu a gwariant cynyddol yn parhau yn 2021-22 i ymdrin â phandemig COVID-19. Gallant gael effaith sylweddol ar beryglon camddatganiad perthnasol a ffurf a dull ein harchwiliad. Mae enghreifftiau o faterion yn cynnwys; twyll, gwallau a risgiau rheoleidd-dra; gwerth (gan gynnwys anarferiant) y rhestr eiddo diwedd blwyddyn, gan gynnwys cyfarpar diogelu personol; ac amcangyfrif balansau gwyliau blynyddol. | Byddaf yn nodi'r materion allweddol a'r risgiau cysylltiedig ac yn cynllunio ein gwaith i gael y sicrwydd sydd ei angen ar gyfer ein harchwiliad. | Adolygais y trafodiadau a'r balansau yn ymwneud â COVID-19, a'u profi lle y bo'n briodol.<br>Roedd canfyddiadau fy archwiliad yn foddhaol. |
| Rwy'n archwilio rhai o'r datgeliadau yn yr adroddiad taliadau i lefel sylweddol is o berthnasedd, megis tâl uwch-swyddogion ac aelodau annibynnol. Mae'r datgeliadau felly, yn eu hanfod, yn fwy tueddol o gael camddatganiad sylweddol. Mewn archwiliadau yn y gorffennol, rwyf wedi nodi camddatganiadau perthnasol yn yr adroddiad taliadau drafft a gyflwynwyd ar gyfer fy archwiliad, y bu'n rhaid i'r Bwrdd Iechyd eu cywiro. Rwyf | Byddaf yn archwilio pob cofnod yn yr adroddiad taliadau i gadarnhau eu bod yn berthnasol gywir, a bod y taliadau ar y lefelau a gymeradwywyd yn briodol. | Archwiliais yr holl gofnodion a chywirwyd camddatganiadau lle bo angen.<br>Cadarnheais fod y Bwrdd Iechyd wedi parhau i dalu rhai uwch-swyddogion uwchlaw bandiau cyflog Llywodraeth Cymru ac yna, ar ôl y penodiadau, geisio cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru yn ôl-weithredol.<br>Cododd Llywodraeth Cymru ei phryderon gyda'r Bwrdd Iechyd ym mis Ionawr 2022, a chyflwynais fy mhryderon eto i Bwyllgor Archwilio a Risg y Bwrdd Iechyd ym mis Awst 2022. |

| Risg archwilio | Ymateb archwilio arfaethedig | Gwaith a wnaed a chanlyniad |
|---|---|---|
| felly o’r farn bod datgeliadau 2021-22 mewn perygl o gamddatganiad. Mae risg hefyd, fel yr adroddwyd y llynedd, fod y Bwrdd Iechyd yn talu uwch-swyddogion yn uwch na bandiau cyflog Llywodraeth Cymru, ond heb gymeradwyaeth ffurfiol Llywodraeth Cymru i wneud hynny. | | |
| Rwyf hefyd yn archwilio datgeliad trafodion a balansau partïon perthynol i lefel sylweddol is o berthnasedd. Y llynedd, nodais nifer o ddatgeliadau perthnasol a oedd wedi'u hepgor ac y bu'n rhaid eu hychwanegu. | Byddaf yn cadarnhau bod yr holl ddatganiadau angenrheidiol â llofnod wedi'u derbyn, eu gwerthuso, a'u datgelu'n briodol ac yn gywir. Mae fy archwiliadau hefyd yn cynnwys dulliau eraill o brofi, megis fy adolygiad o gofnodion Tŷ’r Cwmnïau gan ddefnyddio dadansoddeg data. | Ar gyfer 2021-22, roedd angen gwneud nifer mawr o gywiriadau eto, o ganlyniad i’m harchwiliad, y cyflwynais adroddiad arno i’r Pwyllgor Archwilio a Risg ym mis Mehefin a mis Awst 2022. |
| Rhwng mis Mai 2020 a mis Mehefin 2021, cynhaliais lefel sylweddol o brofion archwilio ychwanegol o hen rwymedigaethau cyfredol y Bwrdd Iechyd. O ganlyniad i’r gwaith hwn, ac fel yr adroddwyd y llynedd, mae’r Bwrdd Iechyd wedi dileu gwerth materol ei hen rwymedigaethau. Mae | Byddaf yn adolygu’r egwyddorion a’r prosesau cyfrifyddu newydd a fabwysiadwyd, gan ddadansoddi proffil oedran y rhwymedigaethau cyfredol ar ddiwedd y flwyddyn, a phrofi’r balansau a ddatgelwyd ar 31 Mawrth 2022. | Parheais â'm hadolygiad o rwymedigaethau cyfredol y Bwrdd Iechyd. Roedd canfyddiadau fy archwiliad yn foddhaol yn eu hanfod. |

| Risg archwilio | Ymateb archwilio arfaethedig | Gwaith a wnaed a chanlyniad |
|---|---|---|
| gwaith adferol y Bwrdd Iechyd wedi parhau yn 2021-22. | | |

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.
We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.